JONES, DAVID (1736 - 1810), clerigwr Methodistaidd

Enw: David Jones
Dyddiad geni: 1736
Dyddiad marw: 1810
Priod: Jones
Priod: Sinah Jones (née Bowen)
Plentyn: Maria Lewellin (née Jones)
Rhiant: Gwenllian Jones
Rhiant: Richard Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 10 Gorffennaf 1736, yn Aberceiliog, Llanllwni, Sir Gaerfyrddin, mab Richard a Gwenllian Jones. Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg Caerfyrddin. Ef, ond odid, yw'r ' David Jones of Llanvernach' a ordeiniwyd yn ddiacon gan esgob Tyddewi yn 1758; gwyddys ei fod yn gurad Tydweiliog, Llyn, yn 1758-9, a gwasnaethai yn Llanafan Fawr, Brycheiniog yn 1759-60. Ordeiniwyd ef yn offeiriad yn 1760, a cheir ef yn gurad Trefddyn a Caldicot, Mynwy, yr un flwyddyn. Aeth wedyn i ryw blwyf gerllaw Bryste, a symudodd i Crudwell, Wiltshire, yn 1764. Daeth i gyswllt â'r arglwyddes Huntingdon yno, ac yn 1767 cafodd fywoliaeth Llan-gan, Morgannwg, gan yr arglwyddes Charlotte Edwin.

Priododd, (1), Sinah Bowen, Gwaunifor (bu farw 1792), (2) Mrs. Bowen Parry, Maenorowen, Sir Benfro. Rhannodd ei amser rhwng Morgannwg a Phenfro ar ôl ei ail briodas. Bu farw ym Maenorowen, 12 Awst 1810.

Dechreuodd gyfathrachu â'r Methodistiaid pan oedd ym Mynwy, a daeth yn wr blaenllaw yn eu plith ar ôl ymsefydlu yn Llan-gan. Bu Llan-gan yn gyrchfan poblogaidd gan Fethodistiaid Morgannwg; heidient yno wrth y cannoedd i gymuno. Adeiladodd gapel i'w ddilynwyr ym mhlwyf Llangrallo, sef Salem, Pen-coed, yn 1771. Yr oedd yn bregethwr melys iawn; yn ôl 'Pantycelyn' medrai doddi'r 'cerrig â'i ireidd-dra' a gwneuthur 'i'r derw mwyaf caled blygu'n ystwyth fel y brwyn.' Dywedir ei fod yn erbyn mudiad yr ordeinio ymhlith y Methodistiaid, ond bu farw pan oeddid yn trefnu ar gyfer hynny.

Cyhoeddodd ddau lyfryn: (a) *Llythyr oddi wrth Dafydd ab Ioan y Pererin, at Ioan ab Gwilim* (Trefeca, 1784), a gynnwys gofiant byr i Christopher Bassett; (b) *A Funeral Sermon ... of the Late Countess Dowager of Huntingdon* (Llundain, 1791).

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

W. Williams, *Marwnad er Coffadwriaeth am Farwolaeth y Parchedig Mr. Daniel Rowlands yr hwn a ymadawodd a'r byd Hydref 16, 1790, yn 77 mlwydd o'i oed ac a gladdwyd yn Llangeitho* (Merthyr 1828)

Y Traethodydd, 1850, 141-63

Edward Morgan, *Ministerial records: or Brief accounts of the great progress of religion, under the ministry of those eminent, learned, and pious ministers of God, the Rev. D. Rowlands, of Llangeitho, the Rev. W. Williams, of Pant-y-Celin, the Rev. D. Jones, of Llangan* (London 1840)

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908), i, 188-9

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 459-77

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, xx, 86, 96-100

Cofysgrifau'r Eglwys yng Nghymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

G. M. Roberts, 'Nodiadau ar David Jones, Llan-gan', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, xlii, 12-21

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 7262771

Wikidata: Q16850823

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu